Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Amlwch
# Ysgol Gynradd Amlwch
# Amlwch
# LL68 9DY

## Dyddiad yr arolygiad: Mai 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn.

**© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 26/07/2018**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Amlwch sy'n cwrdd mewn ystafell yn yr ysgol gynradd leol, yn awdurdod lleol Ynys Môn. Mae'r lleoliad yn cynnig addysg a gofal i blant o ddwy i dair a hanner oed rhwng 8.50 a 11.20 y bore am bedwar dydd bob wythnos a rhwng 12.30 a 3.00 y pnawn am dridiau'r wythnos. Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i dderbyn hyd at 16 o blant fesul sesiwn. Mae 25 o blant ar y gofrestr ar hyn o bryd, gyda 14 ohonynt yn cael addysg y blynyddoedd cynnar wedi ei hariannu gan yr awdurdod lleol.

Saesneg yw prif iaith y cartref llawer o blant y lleoliad a lleiafrif yn unig sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae dau aelod o staff, gyda un ohonynt yn gymwysedig, yn gweithio yn y lleoliad. Mae'r arweinydd wedi bod yn ei swydd ers Mehefin 2012.

Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ym mis Ionawr 2018 a chan Estyn ym mis Mai 2012.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- llawer o blant yn gwneud cynnydd da o fan cychwyn isel
- y plant yn hapus iawn ac yn ymgartrefu'n sydyn ac yn ddi-ffws
- llawer o blant yn datblygu'n ddysgwyr annibynnol
- llawer o blant yn gwrando ar stori ac yn ymuno yn y symudiadau yn ystyrlon wrth ganu ac ymateb i eiriau a chwestiynau syml yn y Gymraeg
- medrau rhif llawer o'r plant yn datblygu'n dda yn ôl eu hoedran a'u gallu
- llawer o'r plant yn ymddwyn yn dda ac yn parchu'i gilydd
- ymarferwyr yn modelu'r iaith Gymraeg yn gadarn gan drochi'r plant yn yr iaith
- ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol fel tîm ac yn cefnogi ei gilydd er lles y plant

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella yn dda oherwydd bod:

- gan yr arweinwyr weledigaeth glir ar godi safonau, a chryfhau'r ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth ymhellach
- yr arweinwyr wedi meithrin ysbryd o gydweithio clòs ac effeithiol
- ymarferwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n llawn ac yn sicrhau bod y plant yn gwneud y cynnydd gorau
- arweinwyr yn defnyddio gwybodaeth berthnasol a chyfredol am y lleoliad i wella'r ddarpariaeth
- yr adroddiad hunanarfarnu yn adnabod llawer o gryfderau'r lleoliad
- blaenoriaethau ar gyfer meysydd i'w gwella yn cael eu trosglwyddo i'r cynllun datblygu yn llwyddiannus
- gan y lleoliad ystod o bartneriaethau effeithiol

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod y cynllunio yn rhoi arweiniad cadarn i ymarferwyr er mwyn datblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant yn systematig

A2 Sicrhau bod targedau'r cynllun datblygu yn fesuradwy ac yn cael eu monitro'n rheolaidd

A3 Sefydlu trefniadau mwy trylwyr er mwyn adolygu cyfrifon y lleoliad yn effeithiol.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn cyrraedd y lleoliad gyda medrau llythrennedd a rhifedd isel. Erbyn diwedd eu cyfnod yn y lleoliad, mae llawer yn gwneud cynnydd da yn eu medrau iaith, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Mae'r plant yn barod i arbrofi ac ymchwilio gan ddefnyddio'u medrau meddwl yn llwyddiannus wrth raglennu tegan i symud yn ôl ac ymlaen. Mae'r rhan fwyaf yn ceisio datrys problemau yn annibynnol heb gymorth oedolyn. Enghraifft dda o hyn yw'r modd y maent yn chwilio'n frwdfrydig am anifeiliaid yn y tywod.

Mae llawer o'r plant yn gwrando ar oedolion ac ar ei gilydd yn dda gan ymateb i sylwadau syml. Mae llawer yn gwrando ar stori ac yn ymateb i eiriau a chwestiynau yn y Gymraeg. Ar y cyfan, maent yn siarad yn glir, er enghraifft wrth ymateb i gwestiwn am eitemau gwahanol yn y siop flodau. Mae llawer ohonynt yn arddangos emosiynau priodol wrth ymateb i stori neu gân gyfarwydd, er enghraifft teimladau Bili Broga wrth iddo chwilio am gartref. Mae llawer yn canu ystod o ganeuon i nodi adegau o'r dydd, fel amser i dacluso, amser cylch neu ddiwedd y sesiwn. Mae llawer o'r plant yn dangos cynnydd da o'u man cychwyn isel o ran caffael medrau iaith. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gynyddol o ystyr brawddegau, cwestiynau a chyfarwyddiadau cyfarwydd. Mae llawer yn dechrau defnyddio'r termau cywir ar gyfer rhifo a disgrifio maint.

Mae mwyafrif o blant yn dechrau mwynhau edrych ar lyfrau. Maent yn adnabod hoff lyfrau a storïau ac yn dod o hyd iddynt ar sail y clawr a'r lluniau. Mae llawer yn dilyn testun sy'n cael ei ddarllen ac yn dechrau cynnig gwybodaeth am destunau cyfarwydd. Maent yn dechrau adnabod gwahaniaethau a thebygrwydd rhwng lluniau yn stori Bili Broga ac yn disgrifio beth mae'r cymeriadau yn ei wneud neu sut mae nhw'n teimlo yn y stori.

Mae llawer o blant yn mwynhau gwneud marciau ac yn arbrofi gyda sialc a phaent, ac yn dechrau dangos dealltwriaeth o bwrpas ysgrifennu, er enghraifft wrth ysgrifennu yn siop flodau. Mae llawer o blant yn gwneud marciau'n annibynnol wrth gymysgu lliwiau i dynnu llun neu ddefnyddio sialc mawr y tu allan.

Mae llawer o blant yn datblygu medrau rhifedd yn dda yn unol â'u hoed a'u gallu. Mae llawer yn cyfri gan ddefnyddio sefyllfaoedd real yn gyson, er enghraifft wrth nodi sawl broga sydd ar y graig yn y pwll dŵr y tu allan. Mae ychydig yn cyfrif i ddeg heb anogaeth. Mae llawer yn dechrau defnyddio iaith fathemategol yn gywir wrth drafod maint lindys, drwy nodi os ydynt yn fawr neu'n fach.

Mae gan lawer o'r plant fedrau TGCh priodol. Maent yn dechrau defnyddio cyfrifiadur yn annibynnol i ddewis a lliwio anifeiliaid a siapau, ac yn datblygu medrau echddygol mân yn dda iawn wrth ddefnyddio'r llygoden. Gall llawer ddefnyddio tegan rhaglenadwy a thrin llechen gyfrifiadurol neu lygoden yn weddol hyderus.

Mae llawer o'r plant yn datblygu medrau corfforol da. Maent yn symud beiciau'n bwrpasol rhwng conau ac yn datblygu medrau cydbwyso cadarn wrth ymarfer ar y bwrdd cydbwyso. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio offer bach gyda rheolaeth gadarn mewn amrywiaeth o dasgau gwahanol, fel brwshys paent, sialc, siswrn a botymau. Mae medrau llawer o'r plant o ran datrys problemau yn datblygu'n briodol, er enghraifft wrth iddynt osod darnau o lindys sy'n ffitio yn ei gilydd mewn trefn.

**Lles: Da**

Mae bron pob plentyn yn mwynhau dod i'r lleoliad. Maent yn ymgartrefu'n sydyn ac yn ymroi a chanolbwyntio ar y gweithgareddau parhaus yn frwdfrydig. Mae'r rhan fwyaf wrth eu bodd yn cymryd rhan yn yr ystod o weithgareddau ac yn ddyfalbarhau am gyfnodau rhesymol, er enghraifft wrth liwio anifeiliaid ar y cyfrifiadur. Mae llawer yn datblygu'n ddysgwyr annibynnol, er enghraifft wrth ddewis pa weithgaredd i'w wneud neu wisgo ffedogau peintio. Gall llawer adalw dysgu blaenorol yn llwyddiannus wrth gofio bod Siani flewog wedi troi'n bili pala.

Mae llawer o'r plant yn ymddwyn yn dda, yn ystyriol o eraill ac yn gwrtais, gan ddysgu cymryd eu tro a rhannu. Mae rhan fwyaf y plant yn cymryd cyfrifoldeb drwy helpu tacluso gan ddangos parch a gofal o'r offer. Yn ystod amser byrbryd, mae'r rhan fwyaf yn arddangos medrau cymdeithasol da. Maent yn diolch am y bwyd a diod ac yn dangos parch at eraill yn ystod y cyfnod hwn.

Ar ôl defnyddio'r toiled, chwarae'n greadigol neu y tu allan, mae bron pob un o'r plant yn golchi eu dwylo'n drylwyr, heb lawer o anogaeth gan yr ymarferwyr. O ganlyniad, maent yn datblygu eu hymwybyddiaeth o hylendid a'i bwysigrwydd i gynnal bywydau iach a chyfrifol yn llwyddiannus.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ymarferwyr yn cyd-gynllunio'n ofalus yn wythnosol i ddatblygu medrau'r plant yn yr holl feysydd dysgu. Ar y cyfan, mae'r profiadau dysgu hyn yn bodloni gofynion y cyfnod sylfaen yn llwyddiannus ac yn adeiladu ar brofiadau a dysgu blaenorol y plant. Maent yn cynnig profiadau dysgu cyfoethog sydd yn ennyn diddordeb bron pob plentyn yn effeithiol. Mae'r cynlluniau yn bodloni anghenion llawer o'r plant ac yn nodi'n glir beth fydd y plant yn dysgu mewn gweithgareddau. Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd addas o ardaloedd pwrpasol tu fewn a thu allan i gyfoethogi'r ddarpariaeth. Maent hefyd yn sicrhau cyfleoedd cyson i blant ymchwilio a meithrin medrau dysgu annibynnol. Mae'r cynlluniau'n nodi amcanion dysgu clir ar gyfer gweithgareddau ffocws ynghyd â'r medrau i'w datblygu. Fodd bynnag, nid yw'r gweithdrefnau cynllunio yn nodi cyfleoedd yn ddigon cyson i'r plant ddefnyddio'r tu allan ar draws y flwyddyn.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio ar gyfer datblygu medrau llythrennedd y plant yn addas. Maent yn sicrhau cyfleoedd cyson i ddatblygu medrau llythrennedd y plant trwy ystod o weithgareddau ac ymarferion rheolaidd er mwyn trochi'r plant yn y Gymraeg. Er enghraifft, maent yn sicrhau bod plant yn ymarfer ymateb i gwestiynau cyfarwydd yn ystod amser cofrestri ac amser cylch ac yn canu caneuon cyfarwydd yn ddyddiol. Trwy ddarparu cornel ddarllen apelgar a chyfforddus, maent yn rhoi

cyfleoedd ysgogol i'r plant ddysgu trin llyfrau'n ofalus gan ddechrau ymddwyn fel darllenwyr. Maent yn sicrhau bod cyfleoedd buddiol i ddatblygu medrau creu marciau cynnar y tu fewn yn ddyddiol yn yr ardal dwylo prysur a thu allan ar y byrddau du ar y mur.

Mae cyfleoedd cyson i blant ddatblygu eu medrau rhifedd. Mae'r plant yn cyfrif gwrthrychau yn seiliedig ar y thema yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar fedrau rhif y plant. Enghraifft o hyn yw cyfri sawl broga sydd gan bob plentyn yn y grŵp ffocws. Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd cyfoethog i'r plant ddatblygu'u medrau TGCh trwy ystod briodol o brofiadau dysgu diddorol, gan gynnwys defnyddio apiau ar lechen a rheoli tegan rhaglenadwy yn briodol. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio bob tro'n cynnig digon o arweiniad i'r ymarferwyr ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant yn systematig ar hyd y flwyddyn.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio'n fwriadus i ddatblygu medrau corfforol a chreadigol y plant. Er enghraifft, maent yn galluogi'r plant i yrru beiciau ar iard yr ysgol a chreu bwydydd diddorol yn y gegin fwd.

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau cyfleoedd pwrpasol i ddatblygu parch tuag at bobl o gefndiroedd diwylliannol gwahanol, er enghraifft trwy ddathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd yn flynyddol. Hybir Cymreictod y plant yn ddyddiol trwy sefydlu ethos Cymreig o fewn y lleoliad. Mae'r plant hefyd yn derbyn cyfleoedd defnyddiol i ddysgu am draddodiadau a dathliadau Cymreig gan gynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi.

Mae'r lleoliad yn defnyddio ymweliadau lleol i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant yn dda. Maent yn cynnwys ymweliadau i'r parc natur lleol a'r llyfrgell leol. Mae ymwelwyr, fel y ffermwr yn dod ag oen i'r lleoliad, yn addysgu'r plant am y byd o'u cwmpas a rolau pobl yn eu milltir sgwâr yn llwyddiannus.

**Addysgu: Da**

Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol fel tîm ac yn cefnogi ei gilydd er lles y plant. Mae perthynas hyfryd yn bodoli rhwng y staff a'r plant ac mae'r ymarferwyr yn canmol ymdrechion y plant yn gyson a phwrpasol. Mae hyn oll yn gryfder yn y lleoliad ac yn cyfrannu'n dda at reoli ymddygiad y plant a'u parodrwydd i ddangos parch at ei gilydd.

Cryfder arall yw'r modd mae'r ymarferwyr yn modelu'r iaith Gymraeg gan gynnig cyfleoedd cyfoethog i drochi'r plant yn y Gymraeg drwy gyfathrebu â nhw'n gyson. Mae hyn yn help i ddatblygu iaith y plant trwy gyflwyno geirfa newydd ac ailadrodd geiriau cyfarwydd. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddealltwriaeth y plant, yn arbennig gan mai dim ond ychydig sy'n clywed y Gymraeg ar yr aelwyd. Ar y cyfan, mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd addas i'r plant ymateb i gwestiynau yn y sesiynau ffocws. Fodd bynnag, nid ydynt yn gwneud hyn yr un mor llwyddiannus yn ystod y sesiynau torfol. Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd effeithiol o adnoddau wrth gyflwyno storïau, fel Mrs. Wishi Washi ac Ifan Cyw Melyn. Mae hyn yn gymorth i'r plant ddeall cynnwys storïau Cymraeg.

Ar y cyfan, mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o egwyddorion y cyfnod sylfaen. Maent yn sicrhau cydbwysedd llwyddiannus rhwng gweithgareddau sy'n cael eu cyfeirio gan oedolion a rhai sy'n cael eu dewis gan blant y tu fewn. Mae'r

ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i'r plant ddysgu trwy chwarae, er enghraifft wrth iddynt rolio toes a chwarae rôl yn y siop flodau. Mae'r gweithgareddau yn cynnal diddordeb llawer o'r plant yn dda ac yn eu galluogi i ddyfalbarhau â'u tasgau. Mae'r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd cyson i blant ddysgu trwy chwarae a dilyn eu diddordebau y tu allan, er enghraifft wrth chwarae yn y gegin fwd a gwneud marciau efo sialc.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer asesu cynnydd y plant yn effeithiol ac mae ymarferwyr yn adnabod anghenion pob plentyn yn dda. Mae'r ymarferwyr yn canmol plant ar lafar yn gyson ac yn eu holi'n fedrus yn ystod y sesiwn. Mae'r broses o arsylwi ac asesu'r plant yn ddyddiol yn sicrhau bod plant yn cael y gefnogaeth angenrheidiol. Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd bwriadus o'r cynllunio wythnosol i gofnodi camau nesa'r plant.

Mae rhieni'n derbyn gwybodaeth werthfawr am gynnydd eu plant yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad trwy sgyrsiau rheolaidd a nosweithiau agored. Mae gan bob plentyn "Lyfr Trysor" arbennig sy'n cofnodi a dathlu datblygiadau ar draws pob maes dysgu yn ystod y flwyddyn. Gwneir defnydd pwrpasol o'r proffil cryno hwn i greu gwaelodlin ac i gofnodi datblygiad y plant yn ystod y flwyddyn. Trosglwyddir y proffiliau i'r ysgol er mwyn dangos yn eglur holl ddatblygiad pob plentyn.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo lles plant yn llwyddiannus. Drwy greu awyrgylch ddiogel a chroesawgar, mae bron pob plentyn yn mwynhau dod i'r lleoliad. Mae cyfleoedd priodol i hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol y plant, er enghraifft trwy annog y plant i drafod teimladau yn ystod 'amser cylch' a thrwy gyd-addoli cyn bwyta ffrwythau. Mae'r ymarferwyr yn datblygu gwerthoedd, fel gonestrwydd, tegwch a pharch, yn llwyddiannus trwy weithgareddau ac arferion dyddiol. Er enghraifft, maent yn canmol plant am rannu a dangos parch at eraill neu ymddwyn yn dda. Mae'r ymarferwyr yn manteisio ar gyfleoedd buddiol i ddatblygu ymwybyddiaeth o wahanol ddiwylliannau, er enghraifft wrth ddathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd.

Mae'r lleoliad yn cyflwyno pwysigrwydd bwyta'n iach yn llwyddiannus. Mae'r amser byrbryd yn adlewyrchu hyn yn gadarn. Drwy'r gweithgarwch hwn, mae'r plant yn cael cyfle gwerthfawr i gymdeithasu ac i gymryd cyfrifoldeb. Mae bron pob un yn gyfrifol am ailgylchu unrhyw wastraff bwyd ac maent yn clirio eu platiau a chwpanau eu hunain. Mae'r plant hefyd yn dysgu am fwydydd iach wrth blannu a gofalu am y llysiau a'r ffrwythau yn yr ardd. Mae'r ymarferwyr yn hybu arferion byw'n iach yn llwyddiannus trwy gyflwyno cynllun i hybu pwysigrwydd glanhau dannedd. Maent hefyd yn sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd cyson i gael ymarfer corff, gan fanteisio ar adnoddau'r ysgol pan nad yw'r tywydd yn ffafriol.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn cael eu trosglwyddo'n ddiogel i ofal eu rhieni neu ofalwr.

Mae gan y lleoliad brosesau cadarn i ymateb i anghenion unrhyw blentyn ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r arweinwyr yn defnyddio cymorth ac arweiniad yr awdurdod lleol a gwasanaethau arbenigol i gefnogi unigolion yn ôl yr angen. Yn ddiweddar iawn, mae'r lleoliad wedi penodi aelod o staff er mwyn bodloni anghenion plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol penodol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r amgylchedd ddysgu yn groesawgar ac ysgogol. Drwy hyn, mae'r ymarferwyr yn sbarduno dychymyg plant ac yn cyfoethogi'r dysgu y tu fewn a'r tu allan. Mae'r ymarferwyr yn tyfu llysiau, ffrwythau a blodau gyda'r plant yn yr ardal allanol ac mae hyn yn addysgu'r plant am sut mae pethau byw yn tyfu yn llwyddiannus. Mae'r defnydd o'r ardal allanol ar gyfer gweithgareddau egnïol, fel gyrru beiciau ac ymchwilio i fyd natur, yn datblygu medrau corfforol ac ymchwiliol yn dda.

Mae'r ymarferwyr yn paratoi arddangosfeydd lliwgar sydd yn atgyfnerthu'r dysgu yn ogystal â dathlu a gwerthfawrogi gwaith y plant yn dda. Mae'r holl amgylchedd dysgu yn cynnwys cyflenwad da o adnoddau pwrpasol sydd yn cefnogi egwyddorion y cyfnod sylfaen yn llwyddiannus. Mae'r ardaloedd darpariaeth barhaus yn cynnig cyfleoedd cyfoethog i blant ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd, TGCh a chreadigol yn fwriadus.

Mae'r amgylchedd dysgu yn lân, mae'r adeilad mewn cyflwr da ac wedi'i gynnal a'i gadw'n fwriadus.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan yr arweinwyr weledigaeth glir ar godi safonau, a chryfhau'r ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth ymhellach. Mae ffocws pendant iawn ar godi safonau ieithyddol y plant gan fod bron pob un ohonynt yn cychwyn yn y lleoliad yn ddi-Gymraeg. Mae cydweithio buddiol rhwng yr arweinwyr ac mae hyn yn arwain at ysgafnhau'r baich arweinyddol. Trwy gyd-gynllunio effeithiol, a rhannu arbenigedd, mae'r ymarferwyr yn darparu amrywiaeth o brofiadau dysgu diddorol sy'n bodloni deilliannau'r cyfnod sylfaen. O ganlyniad i'r cydweithio effeithiol, mae rhediad y lleoliad o ddydd i ddydd yn llyfn ac yn gyson.

Mae'r arweinwyr yn defnyddio gwybodaeth berthnasol a chyfredol am y lleoliad i wella'r ddarpariaeth. Yn ddiweddar, mae hyn yn cynnwys defnyddio proffil y cyfnod sylfaen i adnabod mannau cychwyn y plant yn gywir ynghyd â hyfforddi'r ymarferwyr i ymateb i anghenion ieithyddol y plant.

Mae'r ymarferwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n llawn ac yn sicrhau bod y plant yn gwneud y cynnydd gorau. Maent yn cwrdd yn wythnosol i gynllunio gwaith y lleoliad yn ogystal â thrafod deiliannau a chynnydd y plant. Maent yn gweithredu ar syniadau, cyngor a chanllawiau er mwyn cynnal a gwella ansawdd y ddarpariaeth, er enghraifft wrth gyflwyno'r gegin fwd yn yr ardal allanol. Mae'r lleoliad yn rhoi sylw pwrpasol i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Maent yn ffocysu'n effeithiol ar hybu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y plant yn ogystal â datblygu'r ddarpariaeth ar gyfer iechyd a lles.

Mae'r person cofrestredig a'r pwyllgor rheoli yn derbyn gwybodaeth berthnasol gan yr arweinydd. Maent yn cyfrannu'n fuddiol tuag at reolaeth y lleoliad gan drafod cefnogaeth ac anghenion y lleoliad mewn cyfarfodydd. Mae hyn yn cynnwys cymryd rhan ym mhrosesau rheoli perfformiad yr ymarferwyr. Mae'r arweinwyr a'r pwyllgor

yn cydweithio'n effeithiol er mwyn sicrhau bod polisïau statudol yn cael eu gweithredu. Mae'r ymarferwyr yn cael cyfleoedd addas ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu yn wythnosol.

**Gwella ansawdd: Da**

Yn dilyn cefnogaeth yr awdurdod, mae'r arweinwyr wedi sefydlu gweithdrefnau gwella ansawdd buddiol. Maent yn gwerthfawrogi barn rhieni, ac yn ymateb yn gadarnhaol i'w sylwadau. Er enghraifft, yn dilyn ymgynghoriad, mae'r arweinydd bellach yn rhannu gwybodaeth ddefnyddiol â rhieni trwy wefan gymdeithasol. Mae hyn yn cyfrannu'n dda i'r broses hunanarfarnu ac yn sicrhau gwelliant. Mae'r person cofrestredig yn derbyn gwybodaeth gyfredol am waith y lleoliad wrth ymweld yn rheolaidd. Drwy hyn, mae'n cyfrannu'n fuddiol i'r broses gan gefnogi'r ymarferwyr yn effeithiol. Fodd bynnag, oherwydd bod aelodaeth y pwyllgor yn newid yn gyson, nid yw eu cyfraniad i'r broses hunanarfarnu yn ddigon gweithredol.

Mae'r cydweithio rhwng yr arweinwyr, y person cofrestredig sy'n athrawes gyswllt yr ysgol, yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin, yn fuddiol. Mae'r cydweithio hwn yn sicrhau bod arweinwyr yn dilyn eu cyngor ar y broses hunanarfarnu. Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd pwrpasol o'r adroddiadau a'r ymweliadau gan y partneriaethau hyn er mwyn cyfrannu at y prosesau hunanarfarnu. O ganlyniad, mae'r adroddiad hunanarfarnu yn ddogfen ddefnyddiol sy'n amlygu cryfderau'r lleoliad yn llwyddiannus o ran safonau plant, y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth.

Mae'r adroddiad cyfredol yn adnabod nifer o feysydd pwysig i'w gwella yn llwyddiannus ac mae'r rhain yn cael eu trosglwyddo i'r cynllun datblygu. Er enghraifft, mae'r arweinydd wedi adnabod yr angen i ddatblygu medrau llythrennau a rhifedd y plant ac mae'n cynllunio hyfforddiant pwrpasol er mwyn gwella'r ddarpariaeth. Mae hyn yn arwain at welliannau sydd yn effeithio'n gadarnhaol ar gynnydd y plant ac mae'r lleoliad hefyd wedi ymateb yn dda i argymhellion yr arolygiad blaenorol. Mae'r cynllun gwella'n nodi amcanion clir sy'n canolbwyntio'n dda ar wella deilliannau plant yn ogystal â chyfoethogi'r ddarpariaeth a phartneriaethau. Mae'r cynllun yn cynnwys camau gweithredu, terfynau amser ynghyd â chyfrifoldebau a meini prawf llwyddiant. Fodd bynnag, nid yw'r targedau ar bob achlysur yn ddigon mesuradwy er mwyn monitro camau gweithredu a sicrhau gwelliant ac nid oes gwerthusiad o'r cynllun blaenorol er mwyn mesur cynnydd.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y lleoliad ystod o bartneriaethau buddiol sy'n cefnogi'r ddarpariaeth yn llwyddiannus. Mae'r cyswllt agos â'r ysgol lle mae'r lleoliad yn cwrdd yn un o gryfderau'r lleoliad. Mae'r cydweithio hwn yn cyfoethogi profiadau dysgu'r plant yn effeithiol. Enghraifft o hyn yw'r modd y mae'r lleoliad yn defnyddio'r neuadd er mwyn datblygu gweithgareddau egnïol, twnnel plastig a'r ardd i gael tyfu hadau a phlanhigion. Yn ychwanegol, mae athrawes gysylltiol yr ysgol yn berson cofrestredig ar y lleoliad ers nifer o flynyddoedd. Mae'r arweinwyr a'r plant yn elwa'n fawr o'r profiad hwn drwy fenthyg adnoddau addysgol yn ôl yr angen. Mae'r holl drefniadau hyn yn cefnogi trefniadau trosglwyddo'n llwyddiannus o'r lleoliad i'r ysgol. Mae hefyd yn sicrhau bod y plant wedi'u paratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

Mae perthynas dda rhwng yr ymarferwyr a rhieni’r plant. Mae polisi drws agored y lleoliad yn golygu bod rhieni’n cael cyfleoedd buddiol i gyfarfod â staff a thrafod unrhyw bryderon yn gynnar iawn. Maent yn derbyn gwybodaeth gyson am gynnydd eu plant trwy gyfarfodydd ffurfiol a’r ‘llyfr trysor’ sy’n amlinellu eu profiadau a’u medrau dros amser. Trefnir bore agored ddwywaith y flwyddyn er mwyn iddynt drafod datblygiad y plant ac er mwyn datblygu diddordeb y rhieni yn addysg gynnar eu plant.

Mae’r arweinwyr yn cydweithio’n effeithiol gydag athrawes ymgynghorol yr awdurdod addysg ac yn gweithredu’n brydlon ar unrhyw gyngor neu argymhelliad. Er enghraifft, yn dilyn cwrs diweddar ar y “Gegin Fwd”, aed ati’n syth i brynu cegin o’r fath er mwyn cyfoethogi medrau creadigol, ieithyddol a chorfforol y plant. Mae’r defnydd cyson o’r adnodd hwn wedi gwreiddio fel rhan o’r ddarpariaeth. Mae gan y lleoliad gysylltiad buddiol gyda Mudiad Meithrin, er enghraifft trwy fanteisio ar gyfleoedd i dderbyn hyfforddiant. Mae ymarferwyr yn cydweithio’n briodol gydag asiantaethau arbenigol pan fo angen cymorth ychwanegol ar blant.

Mae’r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol o’r gymuned i gyfoethogi profiadau’r plant, er enghraifft trwy ymweld â llyfrgell y dref i gael sesiwn Stori a Chân, ymweld â gardd leol, a chael ffermwr i ddangos dau oen bach yn yr ardal tu allan. Mae hyn yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gyfoethogi profiadau dysgu’r plant. Yn ogystal, mae gweithgareddau codi arian y pwyllgor yn cynnig cyfleoedd cymdeithasol hwyliog i deuluoedd yr ardal.

**Rheoli adnoddau: Da**

Yn gyffredinol, mae gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr â chymwysterau priodol a phrofiad perthnasol o weithio gyda phlant ifanc. Mae’r arweinwyr yn sicrhau bod pob ymarferydd yn cefnogi’r dysgu’n fwriadus gan wneud y defnydd gorau o’u profiad a’u harbenigedd. Enghraifft o hyn yw bod yr is-arweinydd yn gyfrifol am safle cymdeithasol y lleoliad er mwyn rhoi gwybodaeth werthfawr i rieni. Mae systemau rheoli perfformiad yn bwrpasol ac yn sicrhau bod datblygiad yr ymarferwyr yn gadarn. Maent yn mynychu hyfforddiant pwrpasol er mwyn datblygu eu gwell dealltwriaeth o sut i ddatblygu medrau iaith y plant yn ogystal â dysgu am ddulliau newydd o ddysgu ac addysgu. Fodd bynnag, nid yw’r ymarferwyr wedi cael cyfle i ymweld â lleoliadau cyfagos, i arsylwi arfer ragorol.

Mae’r arweinwyr yn rheoli adnoddau yn effeithlon ac yn sicrhau cyflenwad da o gyfarpar dysgu sy’n ymateb i ofynion y cyfnod sylfaen yn effeithiol.

Mae gan yr arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o sefyllfa ariannol y lleoliad. Maent yn rheoli gwariant yn effeithiol ac yn cydweithio â rhieni i geisio sicrhau cyllid digonol i’r lleoliad. Mae’r trysorydd yn paratoi mantolen ariannol ond nid yw hon yn cael ei gwirio’n allanol. O ganlyniad, nid oes gan yr arweinwyr brosesau digon effeithiol ar gyfer adolygu cyfrifon y lleoliad.

Yn sgil y ddarpariaeth effeithiol, y staff diwyd, y pwyllgor rheoli cefnogol a’r arweinyddiaeth bwrpasol, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGC** | Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012 |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg |